# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| Teitl y Swydd | Technegydd y Fflyd |
| Gwasanaeth | Priffyrdd ac Amgylcheddol |
| Graddfa | Gradd 7 |
| Pwynt/iau Cyflog | 12-16 |
| Cyflog | £26,421 - £28,282 |
| Pwrpas y Swydd | O dan gyfarwyddyd Arweinydd Gwaith y Fflyd yng Nglanyrafon neu Benrhos, bod yn gyfrifol am y tasgau a ganlyn yn Uned Cynnal a Chadw Cludiant yr Awdurdod:<br>• Cynnal archwiliadau cynnal a chadw ataliol o gerbydau, offer a pheiriannau amrywiol, rhoi gwasanaeth iddynt, eu cynnal a'u cadw, a'u hatgyweirio.<br>• Mynd i safleoedd lle mae cerbydau wedi torri ar ymyl y ffordd a'u hatgyweirio lle bo modd. Os nad oes modd eu hatgyweirio, trefnu i symud y cerbyd/peiriant diffygiol i un o weithdai'r Awdurdod neu i weithdy darparwr allanol.<br>• Cynnal profion MOT blynyddol yn unol â'r gofynion cyfreithiol.<br>• Croesawu diwylliant o newid drwy fod yn agored, yn hyblyg ac yn ystwyth wrth ymateb i amgylchedd sy'n newid o hyd. |
| Lleoliad | Depo Penrhos, Llandysul (1) a Depo Glanyrafon, Aberystwyth (1) (Bydd gofyn gweithio yn y depo arall yn ôl y gofyn.) |
| Oriau Gwaith | 37 awr - 8:00 – 16:00 Dydd Llun – Dydd Iau. 8:00 – 15:30 Dydd Gwener. Bydd gofyn gweithio goramser gall gynnwys nosweithiau, penwythnosau a gwyliau'r banc yn ôl y gofyn. |
| Math o Gytundeb | Llawn-amser |
| Hyd y Cytundeb | Parhaol |
| Teitl swydd y Rheolwr Llinell | Arweinydd Gwaith y Fflyd |
| Cyfrifoldebau Goruchwylio /Rheoli | Amherthnasol |
| Atebolrwydd | Bydd deiliad y swydd yn ymlynu wrth yr holl ystyriaethau a chyfrifoldebau iechyd a diogelwch, gan gynnwys defnyddio cyfarpar diogelu personol priodol a chydymffurfio ag asesiadau risg perthnasol.<br><br>Bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithio'n ddiogel o'i ben/phen a'i bastwn/phastwn ei hun, yn enwedig pan na fydd yn yr un man â'i r(h)eolwr llinell, h.y. pan fydd yn mynd i safle cerbyd sydd wedi torri ar ymyl y ffordd.<br><br>Bydd deiliad y swydd yn gallu gwneud penderfyniadau niferus o ddydd i ddydd, gan ofyn i'w r(h)eolwr llinell am gyngor yn unig, a bydd yn dilyn y gweithdrefnau o ran cynnal archwiliad a rhoi gwasanaeth a nodir yng nghanllawiau cyfredol yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau ar gynnal a chadw cerbydau er mwyn iddynt fod yn addas i'r ffordd fawr.<br><br>Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd ddarparu a defnyddio ei flwch/blwch offer ei hun o offer bach ar gyfer tasgau cyffredin. Yn gyfnewid am hyn, bydd yn cael lwfans offer misol. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn cyflenwi'r rhan fwyaf o'r offer nad ydynt yn rhai blwch offer a byddant ar gael i'w defnyddio yn ôl y gofyn. Bydd y technegydd yn |

| | |
|---|---|
| | gyfrifol am ddychwelyd offer a chyfarpar y Cyngor i'w storfeydd/lleoliadau penodedig.<br><br>Bydd deiliad y swydd yn agored i lawer o wahanol amodau hinsoddol ac amgylcheddol pan fydd yn cyflawni ei (d)dyletswyddau. |
| Telerau Cytundebol sy'n Gysylltiedig â'r Swydd | Mae Lwfans Offer yn daladwy. |

| Dyletswyddau a chyfrifoldebau |
|---|

- Archwilio ystod o gerbydau/peiriannau, gwneud diagnosis o'r diffygion (gan ddefnyddio eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch profiad, yn ogystal â chyfarpar diagnostig electronig arbenigol), eu hatgyweirio a rhoi gwasanaeth iddynt, gan gyrraedd y safon a bennir yng nghanllaw cyfredol yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau ar gynnal a chadw cerbydau er mwyn iddynt fod yn addas i'r ffordd fawr a chanllawiau perthnasol eraill.
- Gofyn am arweiniad gan Arweinydd Gwaith y Fflyd o ran diffygion cymhleth nad yw deiliad y swydd yn gallu gwneud diagnosis ohonynt neu'u hatgyweirio, a hynny i bennu'r camau mwyaf priodol i'w cymryd.
- Cynnal a chadw ac atgyweirio cerbydau yn unol â'r holl rwymedigaethau cyfreithiol.
- Rhoi adroddiadau am gyflwr cyffredinol cerbydau a pheiriannau a chwblhau holl ddogfennau archwiliadau a gwasanaethau yn llwyr, yn gywir ac yn brydlon gan roi digon o fanylion.
- Rhoi gwybod am unrhyw ddiffygion y dylai gyrrwr roi gwybod amdanynt y cafwyd hyd iddynt yn ystod y broses o gynnal archwiliad neu roi gwasanaeth ac nad yw'r gyrrwr wedi rhoi gwybod amdanynt.
- Rhoi gwybod i Arweinydd Gwaith y Fflyd am unrhyw bryderon o ran a yw cerbyd/peiriant yn addas i'r ffordd fawr.
- Llenwi unrhyw ddogfennau perthnasol ar gyfer pob tasg, gan nodi manylion y gwaith a wnaed, y diffygion, ac a oes angen eu hatgyweirio neu a oes modd parhau i ddefnyddio'r cerbyd/peiriant, unrhyw gamau unioni a gymerwyd, unrhyw waith a wnaed ac unrhyw gydrannau/nwyddau traul a ddefnyddiwyd, a sicrhau bod cyn lleied o wastraff â phosibl.
- Lleoli/symud cerbydau o fewn y sir a thu allan iddi am resymau amrywiol, fel cael profion MOT, cael gwasanaeth, cael eu hatgyweirio a/neu gael eu galw yn ôl dan warant, ymhlith rhesymau eraill.
- Gofalu na chaiff cerbydau/peiriannau na chydrannau eu difrodi'n ddamweiniol pan fyddant yn cael gwasanaeth, archwiliad neu atgyweiriad.
- Ymgymryd â thasgau yn unol â chanllawiau gweithgynhyrchwyr ac unrhyw rai o bolisïau, prosesau a gweithdrefnau perthnasol gwasanaeth Rheoli'r Fflyd.
- Gwirio lefel ac ansawdd y gwaith drwy ddefnyddio cyfarpar diagnostig, a phrofi cerbydau ar y ffordd ar ôl gweithio arnynt.
- Mynd i safleoedd lle mae cerbydau/peiriannau wedi torri a'u hatgyweirio ar ymyl y ffordd pan fo angen. Lle bo angen, trefnu iddynt gael eu symud i leoliad priodol. Gall hyn ddigwydd ar unrhyw adeg yn ystod oriau gwaith arferol, a thu allan i'r oriau gwaith arferol os byddwch yn rhan o'r rota wrth gefn 24/7 gwirfoddol ar gyfer Technegydd yr Uned.
- Ymgymryd â gwaith saernïo i addasu/atgyweirio cyrff/fframiau cerbydau. Os oes angen hyfforddiant, fe'i darperir a bydd gofyn ichi fodloni'r safon berthnasol cyn ymgymryd ag unrhyw waith weldio i atgyweirio cerbydau.
- Rhoi profion MOT blynyddol i gerbydau mewnol y Cyngor ac i gerbydau allanol sy'n eiddo i'r cyhoedd, gan ddefnyddio'r cyfrifiadur, y feddalwedd a'r cyfarpar profi pwrpasol ar gyfer profion MOT, a chydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol.
- Bodloni'r gofyniad hyfforddi bob blwyddyn a bob pum mlynedd (oriau a chofnodion) i gael cynnal profion MOT, a chwblhau eich asesiad blynyddol.

Nid yw'r rhestr uchod yn gyflawn ac fe all newid.

| Cyfeirnod at Ddibenion Gwerthuso Swyddi | JD 1268-02 |
|---|---|

# Manyleb Person

| Gofynnol | | |
|---|---|---|
| Cymwysterau Academaidd / Proffesiynol / Technegol / Galwedigaethol | Diploma City & Guilds Lefel 3 mewn Cynnal ac Atgyweirio Cerbydau Ysgafn neu gymhwyster cyfatebol;<br><br>Pum mlynedd o brofiad perthnasol mewn gweithdy;<br><br>Trwydded yrru Categori B ddilys.<br><br>Trwydded i yrru cerbydau nwyddau trwm. Os nad ydych eisoes yn meddu ar y cymhwyster hwn, bydd angen ichi ei ennill cyn pen 12 mis ar ôl eich penodi.<br><br>Cymhwyster i gynnal profion MOT. Os nad ydych eisoes yn meddu ar y cymhwyster hwn, bydd angen ichi ei ennill cyn pen pum mlynedd ar ôl eich penodi. | |
| Sgiliau Ieithyddol Cymraeg | Gwrando/Siarad: **Lefel 2**<br>Darllen: **Lefel 1**<br>Ysgrifennu: **Lefel 1** | Rhaid cwrdd a’r sgiliau ieithyddol Cymraeg a nodwyd o fewn dwy flynedd i benodiad |
| Sgiliau Ieithyddol Saesneg | Gwrando/Siarad: **Lefel 3**<br>Darllen: **Lefel 3**<br>Ysgrifennu: **Lefel 3** | Rhaid cwrdd a’r sgiliau ieithyddol Saesneg a nodwyd ar apwyntiad |
| Sgiliau Ymarferol / Personol | • Mae’r gwaith yn gorfforol ac yn gofyn am olwg lliw arferol.<br>• Hunangymhelliad<br>• Agwedd hyblyg tuag at weithio mewn gwahanol sefyllfaoedd/lleoliadau, a hynny mewn tîm bach neu ar eich pen eich hun. | |
| Profiad Hanfodol | • Pum mlynedd o brofiad perthnasol mewn gweithdy.<br>• Profiad o roi gwasanaeth i beiriannau, cerbydau bach, cerbydau nwyddau mawr a cherbydau nwyddau trwm, a’u hatgyweirio.<br>• Chwaraewr tîm sy’n gallu meithrin perthynas waith gynhyrchiol.<br>• Rhywun craff sy’n gallu datrys problemau. | |
| Hyfforddiant/addysg y mae’n ofynnol eu cyflawni/mynd ati i’w cyflawni ar gyfer y swydd | Darperir unrhyw hyfforddiant newydd a hyfforddiant cyfnodol/atgoffa perthnasol ar ôl eich penodi.<br><br>Trwydded i yrru cerbydau nwyddau trwm. Os nad ydych eisoes yn meddu ar y cymhwyster hwn, bydd angen ichi ei ennill cyn pen 12 mis ar ôl eich penodi.<br><br>Cymhwyster i gynnal profion MOT. Os nad ydych eisoes yn meddu ar y cymhwyster hwn, bydd angen ichi ei ennill cyn pen pum mlynedd ar ôl eich penodi.<br><br>Gall fod gofyn ichi gael Trwydded IRTEC. | |
| **Dymunol** | | |
| Cymwysterau / Hyfforddiant | Diploma City & Guilds Lefel 3 mewn Cynnal ac Atgyweirio Cerbydau Nwyddau Trwm neu gymhwyster cyfatebol. | |
| Sgiliau Ymarferol / Personol | | |

# Job Description

| | |
|---|---|
| Post Name | Fleet Technician |
| Service | Highways and Environmental |
| Grade | Grade 7 |
| Spinal Point/s | 12-16 |
| Salary | £26,421 - £28,282 |
| Job Purpose | Under the general direction of the Fleet Works Leader at either TMU Glanyrafon or TMU Penrhos be responsible for the following tasks within the Authority's Transport Maintenance Unit (TMU) :-<br><br>• To carry out Preventative Maintenance Inspections, servicing, maintenance and repair of a range of vehicles, plant and machinery.<br>• To attend roadside breakdowns of vehicles and where possible effect repair. Where it is not possible to repair, arrange for the movement of the disabled vehicle / plant to one of the Authority's workshops or that of an external provider.<br>• To carry out annual MOT tests in accordance with legal requirements.<br>• Embracing a culture of change by being open, flexible and adaptable in responding to a continually changing environment. |
| Location | Penrhos Depot, Llandysul (1) and Glanyrafon Depot, Aberystwyth (1)<br>(with a requirement to work at the other depot as and when required). |
| Hours of Work | 37 hours<br>8:00 – 16:00hrs Monday to Thursday<br>8:00 – 15:30hrs Friday<br>Overtime will be required which may include evenings / nights, weekends and bank holidays where required. |
| Type of Contract | Full-time |
| Contract Duration | Permanent |
| Line Managers Job Title | Fleet Works Leader |
| Supervisory/Managerial Responsibilities | N/A |
| Accountability | The post holder will adhere to all Health and Safety responsibilities and considerations which includes the use of appropriate Personal Protective Equipment and adherence with relevant risk assessments.<br><br>The post holder will be required to work safely on one's own initiative, especially when remote from line manager, i.e. when attending road-side break-downs.<br><br>The post holder will have the ability make numerous day-to-day decisions, only referring to his/her line manager for advice, and follow the set inspection/servicing procedures as outlined in the curent DVSA's 'Guide to Maintaining Roadworthiness' |

| | |
|---|---|
| | The post-holder will be expected to provide and use their own Tool Box of small tools for routine operations and in return receive a monthly tool allowance. However, the majority of non-Tool Box items will be Council-supplied and available for use as and when required. Technicians will be responsible for returning the Council's tools and equipment to their designated storage/holding locations.<br><br>The post holder will be exposed to a range of climatic and environmental conditions whilst in pursuit of their duties. |
| Contractual Terms Associated with the Post | Tool Allowance will be payable |

**Duties and Responsibilities**

- To inspect, diagnose faults (using own skills, knowledge and experience as well as through the use of specialist electronic diagnostic equipment), repair and service a range of vehicles/plant to the standard required in the curent DVSA's 'Guide to Maintaining Roadworthiness' and other relevant guidance.
- Seek guidance from the Fleet Works Leader in respect of complex faults the post holder is unable to diagnose / repair as to the most appropriate course of action.
- Vehicle maintenance and repairs to be carried out to comply with all legal obligations.
- Report general condition of vehicles and plant and complete all relevant inspection and service documentation fully and accurately with sufficient detail and in a timely manner.
- Report any driver reportable defects which have been idenified as part of the inspection / servicing process which have not been identified by the driver.
- To report any concerns with the roadworthiness of a vehicle / item of plant to the Fleet Works Leader.
- Complete any relevant documentation for each job detailing work carried out, identifing defects/faults and whether repair is required or whether the item remains servicable, any corrective action / work undertaken and parts/consumables used, and ensure minimum wastage.
- Carrying out positioning / movement of vehicles within and out of County for reasons including but not limited to MOT testing, vehicle servicing, repair and / or warranty recalls.
- To take care not to cause accidental damage to vehicles/plant and components during service, inspection or repair.
- Carry out procedures in accordance with the various manufacturers guidelines and in accordance with any relevant Fleet Management policies, processes and procedures.
- Check level and quality of work through use of diagnostic Equipment and road testing vehicles after work has been carried out.
- Attend vehicle / plant break-downs & carry out road-side repairs when required. Where necessary arrange for recovery to an appropriate location. This can occur at any time during normal work-time, and out-of-hours if participating on the voluntary 24/7 Stand-by Rota for TMU Fitters.
- Undertake fabrication work to adapt/repair vehicle bodies/chassis. Where training is required, this will be provided and the relevant standard achieved before undertaking any welding repairs.
- To carry out annual MOT testing of internal Council vehicles as well as external vehicles belonging to the public, operating the designated MOT bay computer, software and testing equipment, complying with all the legal requirements.
- To undertake the annual and 5 yearly training requirement (hours and records) for being an MOT tester and complete your annual assessment.

The above is not exhaustive and is subject to change.

| | |
|---|---|
| Job Evaluation Post Ref | JD 1268-02 |

# Person Specification

<table>
<tr><th colspan="3">Essential</th></tr>
<tr><td>Academic / Professional / Technical / Vocational Qualifications</td><td colspan="2">City and Guilds Level 3 Diploma in Light Vehicle Maintenance & Repairs or an equivalent qualification;<br><br>Five years of relevant work-shop experience; and<br><br>Hold a valid Category B Driving Licence.<br><br>To hold a HGV Driving Licence. If you are not already a holder of the qualification you will need to attain this within 12 months of appointment.<br><br>To be a qualified MOT tester. If you are not already qualified MOT tester you will need to attain this within 5 years of appointment.</td></tr>
<tr><td>Welsh Linguistic Skills</td><td>Listening/Speaking: Level 2<br>Reading: Level 1<br>Writing Level 1</td><td>The Welsh linguistic skills noted must be attained within two years of appointment.</td></tr>
<tr><td>English Linguistic Skills</td><td>Listening/Speaking: Level 3<br>Reading: Level 3<br>Writing Level 3</td><td>The English linguistic skills noted are required on appointment</td></tr>
<tr><td>Practical and personal skills</td><td colspan="2">• The work is physical and requires normal colour vision.<br>• Self-motivated<br>• Flexible approach to working in different situations/locations, in either a small team or by oneself.</td></tr>
<tr><td>Required Experience</td><td colspan="2">• Five years of relevant work-shop experience.<br>• Experience of servicing and repairing plant, small vehicles, LGV’s and HGV’s.<br>• Team player who is able to build productive working relationships.<br>Sound judgement with problem-solving capabilities.</td></tr>
<tr><td>Training/education required to be undertaken for the post/worked towards</td><td colspan="2">Any relevant new and periodic/refresher training will be provided once in post.<br><br>To hold a HGV Driving Licence.  If you are not already a holder of the qualification you will need to attain this within 12 months of appointment.<br><br>To be a qualified MOT tester. If you are not already qualified MOT tester you will need to attain this within 5 years of appointment.<br><br>There may be a requirement to obtain an IRTEC License.</td></tr>
<tr><th colspan="3">Desirable</th></tr>
<tr><td>Qualifications / Training</td><td colspan="2">City and Guilds Level 3 Diploma in HGV Maintenance & Repairs or an equivalent qualification.</td></tr>
<tr><td>Practical / Personal Skills</td><td colspan="2"></td></tr>
</table>